@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff - Chwarae Symud Ffynnu Ysgol Gynradd Cwm Clydach

Daeth Blynyddoedd Cynnar Cymru aton ni gyda syniad i gynnig hyfforddiant Chwarae Symud Ffynnu i athrawon ysgolion Rhondda Cynon Taf. Nod Chwarae Symud Ffynnu yw darparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen i gefnogi plant i fod yn 'gwbl gorfforol' yn y cwricwlwm i Gymru. Eglurodd Blynyddoedd Cynnar Cymru y byddai'r hyfforddiant yn helpu ein hysgolion i sicrhau bod y plant yn symud trwy gydol y diwrnod ysgol, gan ddefnyddio ardaloedd ac adnoddau oedd gyda nhw'n barod. Fe wnaethon ni drefnu hyfforddiant a gwahodd athrawon dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i fod yn rhan o'r diwrnod. Roedden ni o'r farn byddai Chwarae Symud Ffynnu o gymorth i'r ysgolion yna i annog plant y blynyddoedd cynnar i fod yn heini.

Cynhalion ni dri chwrs ac ymunodd **43** o athrawon/staff addysgu o **33** ysgol gynradd wahanol. Rhoddodd yr hyfforddiant ddealltwriaeth i athrawon o pam mae symud yn bwysig, a llwyth o syniadau i'w rhoi ar waith yn yr ystafell ddosbarth.

Cwblhaodd Rebecca o Ysgol Gynradd Cwm Clydach yr hyfforddiant, ac roedd hi o'r farn ei fod yn addysgiadol, yn fuddiol ac yn llawn hwyl. Fe wnaeth yr hyfforddiant wella ei dealltwriaeth a'i hyder. Ers yr hyfforddiant mae hi wedi newid trefn ei hystafell ddosbarth er mwyn i ddisgyblion symud drwy gydol y dydd, ac mae hi'n annog disgyblion i ddarllen a marcio o dan eu byrddau. Mae Rebecca wedi gwerthuso adnoddau'r ysgol a'u defnyddio i ddatblygu sgiliau corfforol y disgyblion heb orfod prynu unrhyw offer ychwanegol. Mae'r plant yn ymgysylltu'n well oherwydd dylanwad y gweithgareddau. Mae'r plant eisiau cymryd rhan yn y gweithgareddau, ac yn aml yn gofyn amdanyn nhw gan eu bod nhw'n ddiddorol ac yn bwysicaf oll, yn llawn hwyl.

*"Mae'r hyfforddiant yma wedi gwella fy nealltwriaeth o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol o ran datblygiad corfforol, emosiynol a synhwyraidd plant ifainc."*

*"Rydw i wedi dechrau 'good morning sun' a gweithgaredd cerdded synhwyraidd erbyn hyn. Mae hyn wedi cael effaith ar fy nisgyblion sydd ag ADY."*

*"Rydw i wrth fy modd gyda'r ffaith nad oes angen gwario unrhyw arian i greu'r gweithgareddau symud a gafodd eu hawgrymu."*

**43** o athrawon wedi derbyn hyfforddiant

**100%** wedi mwynhau'r hyfforddiant

Mae **100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**33** o ysgolion wedi cymryd rhan

**100%** wedi dysgu syniadau a gwybodaeth newydd

RHONDDA CYNON TAF